**Gweithdy Cynhyrchu Incwm**

**02 Gorffennaf 2025**

**Aelodau yn Bresennol:**
Y Cynghorydd D Clements, y Cynghorydd C George, Dr M Havard, Mrs S Hoss, a'r Cynghorydd M James.

**Swyddogion yn Bresennol:**
Claire Bates, Owen Edwards, Catrin Evans, Mark Everson, Georgia Jones (Cofnodion), Tegryn Jones, James Parkin a Rachel Perkins.

[Ar-lein, 11:00–12:50]

1. **Ethol Cadeirydd**
   Cytunwyd i ethol y Cynghorydd C George yn Gadeirydd am y flwyddyn oedd i ddod.

2. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**
   Derbyniwyd ymddiheuriad am absenoldeb oddi wrth Katie Macro.

3. **Cofnodion**
   Nodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2025.

   **Nodwyd.**

4. **Diweddariad ar y Mesurau Arbed Costau Heblaw am Staff**
   Rhoddodd y Prif Weithredwr ddiweddariad ar y camau a gymerwyd o ran y mesurau arbed costau heblaw am gostau staff, fel y trafodwyd yn flaenorol yn y gweithdy ar yr 2$^{ail}$ o Ebrill 2025.

   O ran y tâl a godir am barcio ceir, dywedwyd y byddai papur yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol fis Gorffennaf, ac y byddai'r papur hwn yn cynnwys cynnig y gellid ei roi ar waith cyn gynted â thymor 2026, yn amodol ar gymeradwyaeth yr Aelodau. Ychwanegwyd bod yr Awdurdod yn anelu at gydweddu'r taliadau parcio â'r taliadau a godir ym meysydd parcio arfordirol Cyngor Sir Penfro.

   O ran y daenlen atodedig oedd yn rhestru'r mesurau arbed costau heblaw am staff, gofynnodd yr Aelodau am gynnwys rhagor o fanylion yn y dyfodol gan gynnwys dyddiadau penodol yn y golofn amserlen, a gwybodaeth ynghylch cyfanswm ffigurau'r mesurau arbed costau nad ydynt yn cael eu dilyn ymhellach. Nodwyd yr awgrymiadau hyn gan y Prif Weithredwr.

**Nodwyd.**

5. **Cymorth ariannol i Ironman yn y Dyfodol**
   Gofynnodd y Prif Weithredwr am farn yr Aelodau ynghylch a oeddent yn dymuno parhau i roi cymorth ariannol i Ironman gan fod hyn wedi'i glustnodi fel mesur posibl i arbed costau. Dywedwyd bod yr Awdurdod wedi buddsoddi tua £20,000 yn Ironman ers i'r ras gael ei chynnal yn Sir Benfro gan fod y ras o fudd i'r economi leol ac i dwristiaeth. Er gwaethaf hyn, roedd y Swyddogion bellach o'r farn y gallai Ironman fod yn hunan-gynhaliol yn ariannol erbyn hyn ac nad oedd y cyllid a ddarperir gan yr Awdurdod yn allweddol i lwyddiant y digwyddiad.

   Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch manteision Ironman i'r gymuned leol, a dywedodd Aelod y byddai'r Awdurdod yn gwneud ymrwymiadau cynaliadwyedd yn ofynnol gan Ironman pe bai'r cyllid yn parhau. Manteisiodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian ar y cyfle i atgoffa'r Aelodau o ddiffyg ariannol yr Awdurdod a'r angen i ganolbwyntio ar flaenoriaethau'r Awdurdod.

   Cadarnhaodd y Prif Weithredwr bod Cyngor Sir Penfro hefyd yn y broses o benderfynu a oeddent yn dymuno parhau i gefnogi Ironman yn ariannol. Ychwanegwyd, er mwyn gallu dod i benderfyniad ar y ffordd orau o fwrw ymlaen, y byddai papur yn cael ei gyflwyno gerbron cyfarfod o'r Awdurdod Parc Cenedlaethol yn y dyfodol i'r Aelodau ei ystyried.

   **Nodwyd.**

6. **Twristiaeth Adfywiol**
   Roedd y Pennaeth Twristiaeth Adfywiol wedi cyflwyno papur oedd yn rhoi trosolwg o'r mesurau cynhyrchu incwm yn y tair canolfan ymwelwyr oedd gan yr Awdurdod. Roedd yr adroddiad yn cynnwys cyflwyniad i'r timau perthnasol ac yn rhoi gwybodaeth ynghylch y weledigaeth o dwristiaeth adfywiol, y gwahanol ffrydiau refeniw yn y canolfannau, yr incwm yn 2024/25, yr ystadegau ar incwm 2024/25, a chrynodeb o niferoedd yr ymwelwyr.

   Tynnodd y Swyddog sylw at yr heriau sy'n wynebu canolfannau ymwelwyr yr Awdurdod, gan gynnwys twf masnachol moesegol, staffio, a'r costau cynyddol.

Aeth y Swyddog rhagddo i drafod y cyfleoedd a glustnodwyd i gynhyrchu incwm oedd yn cynnwys nawdd, trwyddedu brand, cyllid, ehangu'r cynigion presennol, a'r systemau adrodd.

Gofynnodd Aelod am fanylion pellach ynghylch yr elw a gynhyrchwyd gan y canolfannau, a manteisiodd y Swyddog ar y cyfle i dynnu sylw at yr her i'r canolfannau gyflawni yn erbyn amcanion yr Awdurdod a chynhyrchu incwm yr un pryd, sef her na wynebir gan feysydd eraill yr Awdurdod. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai disgwyl i bob adran yn y dyfodol gyflwyno ffigurau ar eu gweithgaredd cynhyrchu incwm wrth gyflwyno adroddiadau i'r Aelodau.

Cafwyd trafodaeth i ddilyn ynghylch pa mor broffidiol yw'r canolfannau, a chadarnhaodd y Pennaeth Cyllid a Chodi Arian, er bod Caeriw a'r ystafell de yn gwneud elw, nad oedd Oriel y Parc yn gallu cynhyrchu incwm drwy godi tâl mynediad, a bod Castell Henllys yn gwneud colled, felly roedd y gallu i gynhyrchu incwm yn amrywio o safle i safle. Trafodwyd y cyfleoedd i gynhyrchu incwm yn y gwahanol safleoedd gan gynnwys y gwasanaeth addysgol yng Nghastell Henllys, a Maes Parcio Caeriw. Serch hynny, er gwaethaf yr heriau, rhaid oedd cydnabod bod y canolfannau wedi perfformio'n hynod o dda yn cyflawni amcanion yr Awdurdod.

Cytunwyd y dylid datblygu dangosyddion mwy anniriaethol yn y dyfodol, megis adborth cwsmeriaid, i grisialu'r modd yr oedd y canolfannau yn cyflawni ar y weledigaeth twristiaeth adfywiol yn hytrach na chanolbwyntio'n unig ar yr elfennau ariannol. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Adfer Natur a Thwristiaeth bod angen cynllun buddsoddi ar yr Awdurdod i ddatgloi ffrydiau incwm newydd, a bod hyn yn cael ei archwilio.

**Nodwyd.**

7. **Y Camau Nesaf**
   Cadarnhaodd y Prif Weithredwr y byddai'r meysydd parcio a thoiledau yn cael ei drafod yn y cyfarfod nesaf.

   **Nodwyd.**

8. **Cyfarfodydd yn y dyfodol**
   Cynigiwyd cynnal y cyfarfod nesaf ar 17 Medi 2025.